Y R

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1895. [RHIF 93.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. ROBERT SPEARS.

(Golygydd y "Christian Life".)

FEL yr ä'r byd rhag ei flaen, deuwn i ddeall fwy-fwy yn barhaus mae nid yr hyn a ddywedir, na'r hyn a fwriedir, na'r hyn a freuddwydir, ond yr hyn a wneir sydd yn fwyaf cynnorthwyol i'r blaen fynediant; nid ffurf ac osgo yr hyn a gredir, ond y gwirionedd sylweddol odditano sydd yn llenwi a bywiocau ffrydiau'r meddwl nes peru iddynt ddylifo yn fwy dwfn ac yn fwy nerthol. Y mae'r Parch. Robert Spears yn cael ei ystyried gan y rhai a gymmerant olwg lydan ar bethau, yn enghraifft hapus o'r eangfrydedd meddwl a'r teimlad caruaidd sydd yn nodweddion arbenig yr enwad y ceisia YR YMOFYNYDD ei wasanaethu, nodweddion y credwn eu bod yn myned ar gynnydd yn mhlith enwadau ereill; nodweddion nad ydynt yn edrych ar enwad, ond sydd yn estyn dylanwad eu hyspryd caredig dros ben terfynau pob enwad, er mwyn gwneuthur daioni. Lleinw Mr. Spears ei fywyd â gweithgarwch. Ni wyr fawr beth yw bod ar leser, na pha beth yw rhoi ei oriau effro i esmwythyd; ac etto y mae ei fywyd yn wastad yn llawn o'r boddlonrwydd hapus sydd yn canlyn cyflawniad ffyddlon a chydwybodol o holl ofynion dyledswydd.

Ganwyd Mr. Spears tua'r flwyddyn (dywedyd ar antur ydym) 1825, mewn pentref bychan yn ngogledd Lloegr, yn nghanolbarth y maesydd glo a haiarn. Treuliodd ei ieuenctid gyda'r Wesleyaid. Perthynai ei rieni i'r dosparth gweithiol, a chafodd yntau ei anfon yn fore i ddysgu gwaith gof. Deffrodd awydd gwybodaeth yn ieuanc ynddo, a threuliai ei oriau hamddenol yn darllen i ddiwallu yr

awydd hwnw. Ni ddarllenai er mwyn difyrwch yn unig, ond er adeiladaeth hefyd. Yr oedd gan ei rieni lonaid ty o blant, heb ond incwm bychan ar eu cyfer; ond cydymdeimlai y fam ag awydd y bachgen i ddysgu, a mynych mynych hyd y nod o'i phrinder hebgorai'r ceiniogau er cael y llyfrau oedd yn eisieu arno. Wedi darllen llawer a myfyrio cafodd allan yn mhen tipyn fod ganddo ddawn arbenig i ddysgu ereill; ac am nad oedd ei gariad at waith gof yn fawr, ymgymmerodd a swydd ysgolfeistr. Yr oedd hyn yn hir cyn amser yr ysgolion byrddol. Trodd yr anturiaeth hon allan yn llwyddiant perffaith. Er ei fod ei hunan yn Wesleyad, cariai ei ysgol yn y blaen ar gynllun hollol anenwadol. Wedi saith mlynedd gyda'i ysgol, cafodd ei alw yn 25n oed i fyned dan arholiad yn mherthynas i'w gredo. Dywedodd Mr. Spears ei fod yn berffaith foddlon i ateb unrhyw gwestiynau ond iddynt gael eu gosod allan yn ngeiriau yr ysgrythyr, ac nid allan o lyfrau esponiadol y gredo Fethodistaidd. I'r cwestiwn, "A ydych yn credu fod Duw yn hanfodi yn drindod mewn undod?" Dywedodd fod yn rhaid i'r gofyniad gael ei osod yn ngeiriau y Testament Newydd. Gofynwyd iddo gwestiynau ereill, megys, "A ydych yn credu yn y codwm trwy Adda, ac yn llygredd naturiol dyn?" Atebodd Mr. Spears trwy addef fod bywyd dyn yn fynych yn fath o "raiadr" ddidor, ond ychwanegodd ei gais blaenorol am gael y cwestiwn yn ngeiriau yr ysgrythyr. Ni ddarfu i'r drafodaeth yma cydrhwng Mr. Spears a blaenoriaid yr eglwys derfynu yn foddhaol, fel y gellir casglu. Torodd ei gyssylltiad â'r enwad, ond y mae trwy'r blynyddoedd wedi cadw cornel cynhes yn ei galon tuag ato. Pan yn cyfeirio at yr arholiad fe ddywed "Gwnelai hanes o'r hyn a gymmerodd le y pryd hwnw bennod ddifyr iawn, er fod yr arholwyr yn ddynion difrifol a duwiol iawn, ac oll yn awyddus i'm cadw yn eu plith. Ymadawsom yn hollol gyfeillgar; derbyniais dysteb gan y cyfundeb gyda bendith yr hen bobl, y rhai a weddïent ar fod fy nyfodol yn ddedwydd ac yn llwyddiannus. Nid wyf erioed wedi edifarhau oblegyd y cam a gymmerais y pryd hwnw, nac am foment wedi dymuno rhoi i fyny yr egwyddorion a barasant i mi ymddwyn y modd y gwnaethum."

Wedi gadael y Wesleyaid cafodd wahoddiad unfrydol i gymmeryd gofal eglwys yn Sunderland, oddi yno aeth i Stockton; wedi hyny symmudodd i Stamford street, Llundain; wedi hyny i Stepney, ac yn ddiweddaf i Highgate. Efe ddarfu gychwyn yr achos olaf hwn. Dyma'r capel a fynychir gan ferched ysgol "Channing House," ryw bedwar ugain, fwy neu lai mewn rhif. Fel yn mhob man, a chyda phob peth arall, y mae Mr. Spears wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Highgate. Yn 1889, gorfu iddo adeiladu capel newydd ar *scale* llawer mwy i gyfarfod a chynnydd y gynnulleidfa. Pan ddaeth y newydd yn barod, trodd yr hen yn ysgoldy, yr hwn a ddefnyddir bob hwyr o saith i ddeg fel llyfyrfa a darllenfa rydd. Yma groesawir pawb o bob enwad, tra mae'n ddarparedig ar eu cyfer arlwy gyfoethog o lenyddiaeth werthfawr, digonedd o newyddiaduron o bob desgrifiad, dyddiol, wythnosol, misol, a chwarterol.

Mae'r ystafelloedd yn eang, ac wedi eu goleuo a'u hawyro yn dda, tra mae'n iechyd calon i weled ynddynt y llu o wynebau dysglaer a dedwydd sydd yn mwynhau eu hunain. Nid muriau moelion a chadeiriau celyd geir yma, ond muriau wedi eu haddurno â darluniau, a seddau esmwyth. Gellir deall yn rhwydd fod yma waith ardderchog wedi ei wneyd, ac yn cael ei wneyd—llu o bobl ieuainc yn treulio eu horiau hamddenol mewn modd rhesymol, ag oeddynt o'r blaen yn eu treulio lawer o honynt mewn ffordd ddigon amheus. Ymwelir â r ddarllenfa gan ryw 200 bob nos, tra mai o 100 i 800 yn cymmeryd llyfrau adref am bythefnos. Nid oes neb all amheu iachusrwydd y dylanwad hwn. Lles y cyffredin yw yr unig amcan mewn golwg. Nid oes yma ddim i fod yn enwadol yn y llywodraethiad nac mewn ystyr eglwysig na pholiticaidd. Y mae Mr. Spears yn awyddus i weled eglwysi ereill yn mhob ardal yn cymmeryd i fyny yr un cynllun. Trueni meddwl fod lluaws o ystafelloedd cyffelyb yn cael eu cadw yn hollol segur bob nos. Ceir yn ystafelloedd Mr. Spears 40 o fyrddau, rhai o honynt wedi eu neillduo yn arbenig at wasanaeth y menywod, 150 o gadeiriau, rhyw 2,500 o lyfrau, tua 250 o gylchgronau o bob math, a 50 o rai crefyddol yn perthyn i bob enwad. Nid rhyfedd felly y gellir gweled yma gyda'u gilydd Babyddion a Phrotestaniaid, Eglwyswyr ac Annghydffurfwyr, Trindodiaid ac Undodiaid, yn nghyd a phob math a lliw o wleidyddwyr, oll yn un teulu dedwydd dan yr un gronglwyd. Ceir yma gyfoethog a thlawd, ieuanc a hen, oll i bob ymddangosiad yn ddwfn a dwys fyfyrio uwch ben yr arlwy gyfoethog o'u blaen. Weithiau mae yr ystafell yn orlawn, ac yna ceisir gan y bobl ieuainc i roddi i fyny eu seddau at wasanaeth yr hen. Danfonir y papyrau, tua chant bob wythnos, i yspytai Islington a Holborn, at wasanaeth y cleifion yno. Cyst y sefydliad hwn tua £150 yn y flwyddyn i'w gario yn y blaen, a chofier ei fod yn sefydliad rhydd.

Y mae Mr. Spears wedi cymmeryd dyddordeb er ys blynyddoedd yn y mudiad i estyn yr etholfraint i'r rhyw deg, a theimla'n falch o'r ffaith ei fod wedi cymmeryd rhan yn y cyfarfod cyntaf a gynnaliwyd yn Llundain o blaid y mudiad. Yr oedd hyny yn ystod yr amser oedd yn weinidog yn Stamford Street. Ceisiwyd benthyg y capel i gynnal y cyfarfod, a chafwyd ef gyda phob parodrwydd. Gofynwyd iddo gymmeryd y gadair, ond gyda'i wyleidd-dra arferol gwrthododd, gan awgrymu y byddai yn llawer gwell cael Proffeswr Fawcett, yr hwn oedd y pryd hwnw yn fyw ac yn bresennol, i gadeirio; ac y gallai efe fod yn fwy defnyddiol mewn cyfeiriadau ereill. Llefarodd Mr. Fawcett yn ardderchog ragorol, ond yr oedd y cyfarfod yn un ystormus iawn, ac yn gryf yn erbyn y mudiad, ac ar y cyntaf yn wrthwynebol i bob penderfyniad a gynnygiwyd. Trwy ddoethineb a threfn ddoeth Mr. Fawcett, beth bynag, tawelwyd yr elfen ystormus, ac yn y diwedd cariwyd pob penderfyniad. "Yr oeddwn yn falch," meddai Mr. Spears, "i mi wrthod y gorchwyl anhawdd a syrthiodd i ran y cadeirydd. Dyma enghraifft o'r modd medrus y cyflawnodd Mr. Fawcett ei swydd. 'A garech

chwi, Mr. Fawcett,' meddai un, mewn llais gwawdlyd ac anfoesgar, 'gael menyw yn eistedd yn eich ymyl yn Nhy y Cyffredin.' Atebodd Mr. Fawcett gyda'i addfwynder mwyaf, 'Nid ydym yma heno i geisio gan y cyfarfod i anfon boneddes i Dy y Cyffredin; nid ydym ond yn gofyn fod yr etholfraint yn cael ei hestyn i fenywod ar delerau neillduol.' Ond dyma fy ateb i'r boneddwr, gyda golwg ar fy nheimladau fy hunan ar y mater: gallaf sicrhau iddo fod llawer iawn o fenywod y byddai'n well genyf eistedd wrth eu hochr yn y Ty, nag yw genyf i eistedd wrth ochr llawer o'r boneddwyr sydd yno; a phe gwyddai fy ymholwr gymmaint am y mater ag y gwn I, yr wyf yn meddwl y cytunai â mi o ran ei syniadau a'i deimladau."

Fel pregethwr fe drinia Mr. Spears bob pwnc mewn yspryd crefyddol. Cymmer olwg eang ar ddyledswydd a gwasanaeth y pwlpud, fel y gellir barnu wrth y gyfres ganlynol o'i eiddo: "Anerchiadau i wrywod a menywod meddylgar ar y berthynas gyfeillgar cydrhwng crefydd a gwyddor." Dyma rai o'r pynciau: (1) Ar y Blaned Mawrth; (2) Seryddiaeth a Chrefydd; (3) Cymmodiad Gwyddor a Chrefydd; (4) Daeareg a Chrefydd; (5) Hynafiaeth Dyn, &c.

Fel y dywedwyd yn rhifyn Awst o'r YMOFYNYDD, y mae Mr. Spears ar fedr talu ymweliad a Chymru yn ystod wythnosau cyntaf mis Medi, a gobeithiwn y rhoddir iddo yn mhob man roesaw cynes. Credwn mai ar adeg agoriad capel newydd Cwmbach y bu yma ddiweddaf.

[*Gan mwyaf allan o "Shafts" am Ragfyr 24, 1892.*]

GALAR GWRAIG Y MEDDWYN.

(Buddugol yn Eisteddfod Conwil Gaio, Awst, 1858.)

NI fuom gynt mor ddedwydd—a fu dedwyddach dau?
Pob dydd a nos o'r newydd a ddygent hedd di drai;
Mwyn ydoedd gwen fy Ieuan, a theg ei eiriau oll,
Fel breuddwyd hoff y cyfan mor fuan aeth ar goll!

Mae yn fy nghof yr oriau y llenwai 'mron o hedd,
Wrth wrando'i addunedau i ngharu hyd y bedd:
Dychwelai'r ser i'r nefoedd, a'r gwlith i'r blodau bach,
Cyn gallem lawer noswaith roi'r olaf gusan iach.

Oedd fywyd pob cwmniaeth, ac yspryd llon pob llu,
Holl lanciau'r gymydogaeth a'i carent ef mor gu;
Rhwng caru a rhwng cwyno, rhwng gobaith a rhwng ofn,
Fe godai rhybudd weithiau o serch fy mynwes ddofn.

Y dydd, rhy araf hwnw, a ddaeth wrth ddysgwyl blin,
Pan gyntaf ces fy ngalw ar enw f'anwyl un :
Heb gwmmwl ar ein nefoedd, heb elyn ar y llawr,
Cydlawenhaem ein deuoedd, a rhyw orfoledd mawr !

Mae'n felus byw ar adgof am dymor fu mor der—
Mae'i ddyddiau fel rhosynau, er gwywo, etto'n ber ;
'Rwyf heddyw yn ei garu er croesed fu ein hynt,
Fy mhriod oedd ; mi a'i caraf er mwyn y dyddiau gynt.

Y gyntaf flwydd a dreiglodd heb i mi brofi brad,
A bachgen i ni roddodd oedd ddelw deg ei dad !
Os oedd fy mhriod weithiau yn oedi dod i dref,
Dyfeisiwn fil o rwystrau, a thawel wyliwn ef.

Cynnyddodd mwy fy nhristwch, gan lifo'n donau dwys,
Cawn wylio trwy'r tywyllwch wrth gryd fy machgen glwys
Fe gysgai ef, un anwyl ! a gwen yn gwisgo'i rudd,
Ond rhaid i mi oedd dysgwyl—a dysgwyl hyd y dydd !

Mi wnawn fy nhy mor drefnus, fy aelwyd fach mor lân,
Fy nhamaid bwyd mor flasus—mwy blasus nag o'r bla'n :
Fy nghariad at fy mhriod i oeri nis gadawn,
A gwenwn er fod gwaeau o fewn fy mron yn llawn.

Cynnilwn er gochelyd y tlodi oedd gerllaw,
Ond am bob swllt ennillwn fe wariai yntau naw ;
Dangosais iddo 'ngharpiau, a noethni brwnt ei gefn,
Cadachau ei rai bychain—ond yfed wnaeth drachefn.

Un boreu du gauafol—O, annghofiadwy iâs !
Mi welais dd'od â'i gelain mor syth, mor hyll, mor lâs !
O rew y pell fynyddau a'r eira oedd yn drwch,
A phedwar o rai bychain a lefent uwch ei lwch !

Bu wrthyf galed, caled, mae 'nghalon wan yn friw,
Er mwyn fy mhlant diniwed yn unig ceisiaf fyw,
Ac er eu mwyn maddeuaf y camwedd maith a'r cur,
Ac am y cariad cyntaf fu rhyngom gynt mor bur !

Y Parch. W. Thomas (Gwilym Marles).

Y MEDDWYN.

Y meddwyn llwm, hagr, dychrynllyd !—nid dyn,
Ond duw annwn danllyd !
Oer gorach ar y gweryd
Wrth ei fod yn warth i fyd !

Trebanos. Ben Davies.

ANERCHIAD

A draddodwyd yn Nghyfarfodydd Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru yn Mhontypridd, Gorph. 4, gan y Llywydd, y Parch. T. Thomas.

(PARHAD O RIFYN AWST, 1895.)

GADAWER i ni weled pa faint mwy o ryddid a gymmerwn ni â'r Beibl na rhai o'r *orthodox*. A yw ein beirniadaeth Feiblaidd ni iawer yn fwy llem nâ'r eiddynt hwy? Beth am "*coming theology*" Dr. Clifford? Dywed fod y fwyall (bwyall rhydd-ymofyniad ddeallaf fi) ar wraidd pob meddwl isel am Dduw; fod Duwinyddiaeth i fod ar ammodau heddychlawn â Gwyddoniaeth, ac nad oes eisieu Iawn i ddofi digofaint Duw. Beth am y Doctoriaid Momerie, Dods, a Bruce, a Briggs, yn Lloegr, Scotland, ac America? Nid ydynt yn chwythu'r udgorn heb neb yn gwrandaw. Mae'r Drindod yn brin yn y clorianau. Mae Haeddiant Crist a'r poenau tragwyddol ar sigl; mae ysprydoliaeth ac anffaeledigrwydd y Beibl ar y "*down grade.*" Nid wyf yn gwybod am neb yn Nghymru nad yw yn glynu wrth draddodiad y tadau (efallai fod) ond Dr. Edwards, diweddar Brif Athraw Prifysgol Coleg Aberystwyth. Yn ol *Liverpool Mercury* dywed y Dr.: "A great change is coming over Wales, whose people are now passing through a silent revolution. Much of the old theology has broken down, and can be actually proved to be at the best one-sided and misleading. Thus some of the best Welsh youths refuse to enter a profession in which they suppose they will have to teach men certain lifeless formulæ of past days." Gwn hefyd am un arall, sef y Parch. D. Adams, B.A., yr hwn, yn ddiweddar, a achosodd gryn gynhwrf yn y gwersyll oherwydd ei "Draethawd ar Ddatblygiad." Hawdd gweled yr anhawsder mae Mr. Adams yn deimlo wrth geisio dangos, er yr oll mae'n ddweyd, ei fod gymmedrol *orthodox* wedi'r cyfan, ond y mae pob darllenwr deallus, pwyllog, ac ystyriol, yn gwybod i ba le y mae ei Draethawd galluog yn arwain, neu ei fod yn myned ar y "*down grade,*" geiriau y diweddar, enwog Mr. Spurgeon. Sicr fod awdwr y Traethawd yn un o oleuadau dysgleiriaf yr enwad, yn barchus yn ei eglwys ac yn ei gymmydogaeth, ac yn arweinydd goleudyb i fwy fwy o oleuni.

Rhyw lyfr hynod hefyd yw'r un a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r enw *Welsh Pulpit*, wedi ei gyfansoddi gan dri, os yn wir nid gan ddau, o bersonau dan y ffugenwau "Ysgrifenydd, Pharisead, a Chyfreithiwr." Mae sawr Heresi, a gyfrifir felly gan y mwyafrif o Gristionogion, ar bob tudalen o hono. Mae awgrymiadau Undodaidd, a mwy nag awgrymiadau, yn gwneyd cyfangorph y llyfr i fyny. Dywed un o'r awdwyr "Onid yw yn llawn bryd i'n pregethwyr adael heibio yr athrawiaeth erchyll o gospedigaeth dragwyddol, ac ehangu a rhesymmoli eu drychfeddyliau ar Iachawdwriaeth a

Phrynedigaeth. Mae'r Efengyl yn Efengyl Gobaith, ond pan y dygir i mewn iddi y fath arswydbeth ag uffern, mae'n troi yn Efengyl Anobaith—yn fath o hunllef," neu henllig ag arfer y gair cyffredin. Mae yr athrawiaeth o ddamnedigaeth dragwyddol yn anrhaethol ddychrynllyd; mae yn anobeithiol a hollol anghymmodadwy â'r olwg Gristionogol ar Dadoldeb Duw—"ac i fod yn onest," medd yr Awdwr, "ni ddaethum i gyffyrddiad â neb erioed a chanddo y meddwl lleiaf y byddai iddo ef i fyned i uffern; yn hytrach lle yw i ni drosglwyddo ein cymmydogion iddo." Mae hyn yna yn brawf diymwad fod Duwinyddiaeth o well nâ'r presennol yn graddol weithio ei ffordd yn mlaen.

Darllenais yn ddiweddar i un o weinidogion y *Primitive Methodists* yn Adeilaide, South Australia, ddweyd pethau yn ymylu ar heresi, os nid yn heresi mewn gwirionedd, pan yn siarad ar y pynciau Iachawdwriaeth, Pechod, Iawn, a'r cyffelyb—hoff destynau pregethwyr uniawngred. Fel un peth neillduol, dywedodd fod cynllun yr Iachawdwriaeth, fel y mae yn cael ei ddarlunio, yn ymddangos iddo ef fel math o ddyfais tebyg i *fire escape*, yn lle cyfnewidiad mewnol—teimlad o adgasrwydd at bechod, a phenderfyniad ac ymdrech i fyw bywyd rhinweddol.

Hefyd yn ddiweddar yn Edinburgh mewn cynnadledd gan yr un enwad dywedodd y Llywydd yn mhlith pethau ereill agored i ddrwgdybiaeth, na ddylid gwrthod gwirioneddau newyddion nad o ba le y deuent, ai o wyddoniaeth, ai o feirniadaeth, neu a gyfodent oddiwrth ddadblygiad bywyd cymdeithasol,—y byddai eu gwrthod yn pechu yn erbyn goleuni. Hawdd gwybod at ba bwynt o'r cwmpas duwinyddol yr oedd y sylw yna yn cyfeirio.

Nid wyf yn bwriadu ond prin alw sylw yn mhellach at Lyfr y Parch. Bernard J. Snell, gweinidog Eglwys Annibynol Brixton, Llundain, a gyhoeddwyd ganddo ychydig fisoedd yn ol. Mae'n cynnwys pump o Ddarlithiau, yn y rhai mae'r Awdwr, yn ddiofn, yn gosod gerbron ei ddarllenwyr yr hyn y mae wedi gasglu fel ffrwyth ei fyfyrdodau diweddar ar faes "Beirniadaeth Feiblaidd." Enw y llyfr ydyw "*Gain or Loss.*" Yr hyn sydd yn rhyfedd yw fod yr Awdwr yn cael ei oddef gan ei enwad ei hun, ac yntau wedi cymmeryd y fath ryddid â'r Ysgrythyrau:—yn beiddio gwadu anffaeledigrwydd a chyflawn Ysprydoliaeth y Beibl; yn nodi allan ei gamsyniadau a'i anghyssondebau; yn coffau rhai o'r pethau mwyaf ofnadwy a gwrthun sydd ynddo; er enghraifft mae Mr. Snell yn coffau y Salm 109, yn yr hon mae Dafydd (os Dafydd ei hawdwr) yn gweddio ar i Dduw felldigo ei elyn, pwy bynag oedd, i wneuthur ei ddyddiau yn ychydig, ei wraig yn weddw, ei blant yn amddifaid, yn grwydriaid, yn gardotwyr heb neb i gymmeryd trugaredd arnynt. Hefyd mae Mr. Snell yn coffau y Salm 137, lle dywed Dafydd "Gwyn ei fyd a gymmero ac a darawo dy rai bach wrth y meini." Os yw melldithiadau o'r fath yn ysprydoledig, gofyn Mr. Snell gan bwy y maent wedi eu hysprydoli, os nid gan yspryd pob drwg. Yn ddiammheu gen I fod yr yspryd beirniadol fel ei hamlygir yn

llyfr Mr. Snell, wedi ei arwain yn mhell iawn—efallai yn mhellach nag yr amcanai fyned—yn beryglus o bell—hyd y *borders* yn lân—dybygwn I; ac yr wyf o'r farn mai cyssondeb ynddo fyddai croesi'r *borders* a siglo llaw â'r cyfeillion sydd yr ochr hwnt. Er na bu yr Undodiaid yn credu yn anffaeledigrwydd a chyflawn ysprydoliaeth y Beibl, etto braidd yr ydwyf yn credu y beiddient ysgrifenu yn nechreu y ganrif hon y pethau a ysgrifena Mr. Snell ar ei therfyn; neu os medrent ac y beiddient, y byddent yn cael eu hystyried yn rhy eithafol gan lawer o'u brodyr.

Yr wyf wedi ysgrifenu a ysgrifenais, oblegyd y mae yn galonogol i ni fel enwad bychan i ddeall fod genym ar faes duwinyddiaeth yn bresennol rai cyfeillion perthynol i enwadau ereill, y rhai ydynt yn cydgredu yn lled agos â ni, ac yn cydweithio, er efallai rai o honynt yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn yr un achos. O herwydd y fath amryfusedd cwynai y diweddar Mr. Spurgeon, mewn gwir flinder yspryd, a dywedai fod sosiniaeth yn gweithio ei ffordd i mewn i'r eglwysi trwy bob twll a chornel; ac y mae adolygiad o orphenol y ganrif hon yn dystiolaeth ddigonol mai yn ein cyfeiriad ni mae rhai o'r meddyliau blaenaf yn mhlith yr enwadau fel duwinyddion yn gweithio eu ffordd yn mlaen. Mae'r Undodiaid am hir amser, ac erioed o ran hyny, wedi bod yn fath o *pioneers* yn anialwch gau dybiadau'r byd, yn parotoi'r ffordd ar hyd yr hon mae'r gwirionedd yn myned yn mlaen, ac yn mlaen yr elo, ac yr â, nes bo'r fechan yn fil, a'r gwael yn genedl gref. Mae yn ddiau fod mwy o Undodiaeth yn cael ei choleddu yn y byd nag a wneir yn gyhoeddus.—Mae eisieu mwy o onestrwydd a gwroldeb moesol yn y pwlpidau ac ar y llwyfanau, fel yr awgryma y *Welsh Pulpit*.

Mae yr amrywiol enwadau Iawnffyddol yn dra lluosog, ac yn lluosog yn nifer eu haelodau, ac yn ol y cyfrif a roddant yn myned ar gynnydd parhaus—rai o honynt wrth gwrs yn fwy na'u gilydd. Wrth ddarllen yr hanes yr ydym braidd yn eiddigeddu wrth eu llwyddiant, ac yn anfoddlon i ni ein hunain ein bod gymmaint ar ol. Er mai enwad bychan ydym ni yn mhlith yr enwadau ereill, yn neillduol felly yn Nghymru; etto nid ydym heb ryw ychydig dân ar aelwyd ein Sion, ac nid yw awyrgylch cymdeithas oddiamgylch i ni, heb gael ei nawseiddo i ryw fesur. Ychydig o Undodiaid oedd yn Nghymru ddechreu y ganrif hon; ac nid wyf yn sicr fod ganddynt ragor na dau neu dri o addoldai drwy'r holl Ddeheubarth. Bydded hyny fel yr oedd. Mae'n wir fod amryw gynnulleidfaoedd ddiwedd y ganrif ddiweddaf a dechreu hon, pan nad oedd un rhwystr, ar y "*down grade*,"—neu ar y llythrigfa i waered o Galfiniaeth i Arminiaeth, o Arminiaeth i Ariaeth, ac o Ariaeth i Undodiaeth. Y rhai a bregethasant Undodiaeth gyntaf yn Nghymru yn ol yr hanes, oedd Thomas Evans, Aberdar gynt, Dr. Charles Lloyd, John James, a John Thomas. Hwy oeddent y blaenoriaid, a chanlynwyd hwynt gan ddynion teilwng ereill hyd y dydd hwn, a gobeithio y canlynir hwynt gan weinidogion ereill galluog a theilwng hyd y dydd a ddaw.

Nid er mwyn ymffrostio y dywedaf fod yn Nghymru heddyw ryw 29 o addoldai, ac yr wyf yn cofio yn dda am adeiladu wyth o honynt gyntaf—"estyn cortynau ein preswylfeydd" ydoedd hyn; ac yr wyf yn cofio am 14 yn cael eu hail adeiladu. Yn rhai o honynt mae cynnulleidfaoedd da, tra nad yw ereill efallai llawn cystal, ond nid i'w diystyru. Y mae Dr. Griffiths yn gaffaeliad mawr i'r Undodiaid, os y bydd iddo bara mor fywiog a gweithgar ag yw yn bressenol, ac nid oes le i feddwl yn amgen. Y mae eisoes wedi sefydlu *mission stations* mewn dau neu dri o lefydd yn y gweithfeydd yma. 'Rwyf yn cael ar ddeall fod yr argoelion yn dda, ac yn debyg y bydd llwyddiant i ganlyn. Y mae pedwar o ddynion ieuainc parchus ac addawol o Goleg Caerfyrddin newydd ymgymmeryd â'r weinidogaeth yn Ciliau, Rhydygwin, Capel-y-Groes, Pantdefaid, Llandyssul, Gellionen, a Threbanos; a gobeithio, wedi dyfod dipyn yn gyfarwydd yn yr harnais, y bydd iddynt i weithio yn ffyddlon ochr yn ochr â'r gweinidogion ereill sydd ar y maes—yn eu hamser goreu—gweinidogion profiadol, y rhai y mae eu gwasanaeth yn cael ei gwerthfawrogi yn yr holl eglwysi.

Yn ol fel yr ydym yn casglu oddiwrth y gorphenol, ac yn ol arwyddion yr amserau, y mae dyfodol dysglaer yn aros Undodiaeth. Bydd Cymru efallai yn fwy hwyrfrydig i dderbyn y syniadau, yr un modd ag y mae'r eira yn aros yn hwy yn ngheseiliau'r mynyddau pan y mae dadlaith yn cymmeryd lle; ond daw'r amser pan wresoga haul y gwirionedd Gymru hefyd.

1. Yr wyf o'r farn pe byddai genym ni fwy o drefn, neu well *organization*, y byddai'r gwaith yn myned yn mlaen yn fwy hwylus. Yr wyf yn teimlo ein bod ni fel Undodiaid yn dra diffygiol yn hyn, a byddai yn dda i ni gymmeryd gwers gan yr enwadau ereill.

2. 'Rwy'n credu hefyd y dylem annog ein cynnulleidfaoedd gyda'u gilydd i fod yn fwy effro—i ddangos mwy o fywyd—i gymmeryd mwy o ddyddordeb yn yr achos, ac amlygu hyny trwy ymdrechu yn mhob ffordd gyfreithlon o'i blaid. Pa fodd y mae cael hyn oddiamgylch yr wyf yn gadael i chwi ddyfalu a chynllunio.

3. Nid ydyw ein cynnulleidfaoedd yn talu'r sylw a ddylent i'r Ysgol Sul, yn yr hon y dygir i fyny, fel y mae lle i ddysgwyl, y rhai a ddylent fod yn brif golofnau ac addurnau ein heglwys yn y dyfodol. Nid yw rhieni yn ddigon gofalus i egwyddori eu plant yn mhynciau y ffydd, oblegyd gwelir llawer o honynt, wedi yr elont dros y trothwy, ac ar wasgar ar hyd y byd, o ddiffyg medru gwahaniaethu y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt, yn cael eu cylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth, ac yn syrthio'n ysglyfaeth i afael yr enwad fyddo yn dewis eu cael.

4. Dylid hefyd annog y bobl ieuainc sydd yn codi fyny yn ein heglwysi i gymmeryd at eu hystyriaeth y ddyledswydd o gymmeryd rhan yn ein gwasanaeth cyhoeddus—i ddarllen pennod—i fyned i weddi, ac os dygwydd i'r gweinidog fod yn absennol, i anerch y gynnulleidfa ar ryw destyn neu bwnc fyddont yn ddewis.

'Rwy'n terfynu gyda'r awgrymiadau uchod, a chyda'r dymuniadau goreu ar ran achos y gwirionedd yn y cynteddoedd hyn, ac yn mhob man; ac ar ran cynnydd onestrwydd, purdeb a sancteiddrwydd, a chydymdeimlad brawdol a charedig rhwng holl blant y Tad Mawr, mewn gobaith y cawn, wedi croesi'r adwy, gydgyfarfod mewn undeb ffydd yn ngwlad y goleuni tragwyddol.

EMYNAU.

A adawyd allan o "Emynau ac Odlau" o ddiffyg lle.

TRUGAREDDAU DUW, 7AU.

TRUGAREDDAU tyner gaf
Arna'i'n syrthio fel y gwlith;
A'u mwynhau bob dydd a wnaf—
Diolch, Arglwydd, iti fyth.

Er na chaf bob peth i'm llaw,
Fel y mynwyf ffordd wy'n myn'd,
Pob presennol dda a ddaw
Oddi wrth Dragwyddol Ffrynd.

Ffynnon fy nyddanwch yw,
A fy nerth wrth fyn'd yn mlaen;
Ac mi ganaf, tra f'wyf byw,
Iddo ber dragwyddol gàn.—A.L.W.

Y LLEF DDISTAW FAIN. E.H. II. 99.

Rhoes Duw lef ddistaw fain, a'i glywed bawb a wnawn;
Rhybuddia ni rhag drwg, arweinia ni i'r iawn.

Os ufuddhawn i'r llais, ei sain yn glirach fydd,
A daw ewyllys Duw mor glir a chanol dydd.

Os pasiwn heibio'r llais, ei sain a aiff yn wan;
Os para'n 'sgeulus wnawn, fe'n gedy yn y man.

Mor drist yw gwel'd ein plant yn myn'd yn wyllt a ffol:
O Arglwydd, cadw hwy, a dwg hwy etto'n ol.

A chynnorthwya ni i wrando'r ddistaw lef,
Fel caffom ddydd y Farn ein derbyn yn y nef.

ESTHER WIGGLESWORTH.

YR ARGLWYDD A FFORDDIA GERDDEDIAD GWR DA. PS. 37, 23.*

Trwy'r tywyllwch a'r dirgelwch
  A'n hamgylchant ar bob tu,
Melus cofio'r cariad nefol,
  Melus cofio'r geiriau cu:
Ior y nef wrendy'n llef,
Fforddio'n camrau y mae Ef.

Yn mhob siomiant, yn mhob galar,
  Ddónt i gwrdd a dynol ryw,
Gwrando wnawn ar lais dyledswydd,
  Ac hyderwn fyth yn Nuw. R.J.J.

Os yw llwybrau'r daith yn droiog,
  Ac yn serth, a ninau'n wan,
Pwyswn ar yr Hollalluog,
  Yn ei nerth ni ddown i'r lan.

Wedi cyrhaedd llenyrch Canaan,
  Cawn esponiad llawn o'r daith;
Yno cawn eu gwel'd yn gyfan,
  Yn ngoleuni'r Hwn a'i gwnaeth;
Tyrfa gref gwyd eu llef
Am eu harwain tua thref.—H.T.J.

TY YR ARGLWYDDI.

(Parhad o Rifyn Gorphenaf.)

DIWYGIAD SENEDDOL.

Yn yr erthyglau ag sydd eisoes wedi ymddangos ar y testyn uchod, ceisiasom ddangos ymddygiad yr Arglwyddi tuag at iawnderau y Pabyddion yn Seneddol a Chrefyddol. Nid yw hyny, cofier, yn hyspyddu yr oll ellir ddweyd am yr Arglwyddi yn eu perthynas a'r Gwyddelod. Pennod ddifrifol yn hanes y Ty Uchaf yw ei ymddygiad tuag at gwestiwn y tir yn yr Iwerddon, ond nid yw yn gyfleus i ni ddyfod at hwn yn awr. Deuwn ato o bossibl yn nes yn nlaen. Am y presennol, pa fodd bynag, ceisiwn alw sylw ein darllenwyr at yr Arglwyddi yn eu perthynas a'r pwnc pwysig o Ddiwygiad Seneddol, gan ddechreu, wrth gwrs, gyda mesur mawr 1831. Priodol yw dweyd na ddarfu i'r wlad hon erioed amlygu mwy o ddyddordeb, yn gyffredinol, mewn unrhyw gwestiwn gwleidyddol nag yn y Diwygiad Seneddol sydd yn awr yn faes i'n hymchwiliad. Mor bell yn ol a 1771, cawn fod Iarll Chatham, fel

* Cymharer yr emyn yn Rhaglen Cymmanfa Undodaidd Morganwg 1895.

dyllhuan yn yr anialwch, yn eiriol ar ran cynllun o Ddiwygiad Seneddol, ond ni fu byw yn ddigon hir i'w ddwyn oddiamgylch. Coleddai ei fab enwog, William Pitt, syniadau cyffelyb iddo yn 1782 a 1785, ond yn herwydd creulonderau anfad y Chwyldroad Ffrengig, ymddengys iddo newid ei farn mor hollol nes ymddadblygu i fod yn elyn llwyr i'r diwygwyr. Y *stage* nesaf yn hanes y diwygiad ydoedd y deisebau mawrion a lawnodid yn y prif drefydd (Sheffield, Birmingham, ac Edinburgh) ar ei ran, ac a ddanfonid i Dŷ y Cyffredin. Safai deiseb Edinburgh ar ei phen ei hun mewn pwysigrwydd. Yr oedd ei maintioli yn gyfryw ag i orchuddio holl hydred y Tŷ, a chynnwysai ffeithiau a daflent ffrydlif o oleuni ar druenusrwydd cyflwr gwleidyddol y wlad. Cynnygiai y deisebwyr brofi fod mewn un etholiad 97 o aelodau wedi eu henwi *(nominated)* yn uniongyrchol, a 70 arall yn anuniongyrchol, gan y pendefigion a'r drysorfa; ac fod 91 o bersonau ereill (*commoners*) wedi sicrhau etholiad 139 o aelodau, ac felly bod cyfanrif o 306 o aelodau, neu fwyafrif o Dy y Cyffredin y pryd hwnw, wedi eu dychwelyd gan 160 o bersonau! Yr ydym yn dweyd, ebai deisebwyr Edinburgh, mai dyma gyflwr Lloegr; os ydych chwi yn amheu hyn, gwnewch gyfiawnder a ni drwy alw arnom i roddi y prawf; ac os mai hwn ydyw cyflwr y wlad, ai nid rhesymol a chyfiawn ydyw ei ddiwygio? Ond er mor resynus ydoedd cyflwr y wlad yn wleidyddol yn y cyfnod hwn, nid oes y petrusder lleiaf mai y dylanwad grymusaf o ddigon yn addfedu y genedl i hawlio y diwygiad ydoedd y tlodi angerddol a ganlynai sefydliad y trethi ar ŷd tramorol yn 1815. Ymddangosai y wlad fel pe wedi ei chwbl-ddyhyspyddu; yr oedd y dirwasgiant masnachol a achosid yn cael ei gludo megys ar frig yr awelon i bob cwr o'r wlad; a theyrnasai angen a thlodi yn mhob man oddigerth yn mysg y tirfeddianwyr. Cynnorthwyodd hyn y dosparthiadau iselaf i weled mai ofer ydoedd dysgwyl am ddyddimiad deddfau yr ŷd drwy offerynoliaeth Senedd anniwygiedig. Fel canlyniad ceir fod gweithwyr gwahanol barthau o'r wlad yn ymffurfio yn orymdeithiau mawrion tua Llundain gan geisio llwybr o ymwared drwy ddiwygiad Seneddol. Hyd yn hyn, yr oedd yr awydd mawr am y diwygiad yn gyfyngedig i'r dosparthiadau iselaf. Yn 1819, pa fodd bynag, dygodd Syr Francis Burdett, yr aelod Seneddol dros Westminster, gwestiwn y diwygiad ger bron y Tŷ. Nid oedd ganddo fesur arbenig i'w ddwyn yn mlaen, ond dywedai mai egwyddor y ddeddf gyffredin oedd fod pob un a dalai drethi yn meddu ar lais yn newisiad aelod Seneddol, a chynygiai fod y pwnc i'w gymmeryd i fyny yn y Senedd dymhor dylynol. Gorchfygwyd y cynnygiad gyda mwyafrif mawr. Y nesaf o bwys i ymaflyd yn nghwestiwn y diwygiad oedd Iarll Russell. Gwnaeth y boneddwr enwog hwn ddiwygiad Seneddol yn un o'i hoff bynciau er yn ieuanc iawn; ac yr oedd ei safle cymdeithasol fel mab y *Duke* o *Bedford*, ei onestrwydd grisialaidd, a'i alluoedd annghymharol, yn ernes ddigonol fod cyfaill o'r diwedd wedi ei gael na throai ei wyneb yn ol, ac na thynai ei ddwylaw oddiar yr aradr hyd nes rhoddi mynegiant buddug-

oliaethus i farn a theimlad y wlad. Goddiweddwyd ei lwybr gan anhawsderau mawrion, ond yn mlaen yr ai. Rhaid brysio yn mlaen. Ar adeg esgyniad William IV. yr oedd gallu y diwygwyr wedi dyfod yn anwrthwynebol, ac o'r tu arall, yr oedd gweinyddiaeth Doriaidd Wellington yn cyflym golli ei phoblogrwydd. Yn ymwybodol o'r ddwy ffaith bwysig hyn, datganai y *Duke* nad oedd efe yn gweled y gallesid diwygio y gynnrychiolaeth, ac y gwrthwynebai ef unrhyw fesur a ddygid yn mlaen i'r perwyl. Seliodd ei eiriau dynghed ei weinyddiaeth, a chyffroasant y werin yn aruthr. Yr oedd toriad y Senedd i fyny, a'r etholiad cyffredinol cyssylltiedig a newidiad y brenin, yn gyfleusdra rhagorol i'r diwygwyr gario allan eu hamcan. Ar gais y brenin ymgymmerodd Iarll Grey a ffurfio gweinyddiaeth, ar yr ammod fod y cynghor i gymmeryd dan ei ystyriaeth bwnc y diwygiad. Mawrth 1, 1831, dygodd Arglwydd John Russell, tâl-feistr y galluoedd i'r cynghor uchod, ei fil diwygiadol yn mlaen gydag araeth nerthol. Ei brif ddarpariadau oeddent fod pob bwrdeisdref oedd a'i phoblogaeth dan ddwy fil yn 1821 i gael ei difreinio; a phob un oedd dan bedair mil i anfon un aelod i'r Senedd. I wneyd i fyny am y lleihad hwn, yr oedd amryw o'r trefi mawrion i gael dychwelyd aelod neu ddau, yn ol eu poblogaeth; ac yr oedd tua hanner y siroedd i gael dau aelod ychwanegol. Yn y siroedd estynid pleidlais etholiadol i dri dosparth yn ychwanegol at rydd-ddalwyr o 40s., sef ysgrif-feddianwyr (*copyholders*) o £10 y flwyddyn; ammod-ddalwyr (*leaseholders*) am driugain mlynedd o werth £10 y flwyddyn; a deiliaid preswylfoddog (*tenants-at-will*) yn talu ardreth o £50. Yn y bwrdeisdrefi yr oedd talu £10 o ardreth tŷ, dan ammodau pennodol, yn rhoi pleidlais etholiadol. Darllenwyd y mesur y tro cyntaf heb ymraniad ar ol croesi cleddyfau uwch ei ben am saith niwrnod. Ar yr ail ddarlleniad nid oedd y mwyafrif o blaid y mesur ond un, sef 302 yn erbyn 301. Appeliwyd at y brenin gan Grey a Brougham i dderbyn eu hymddiswyddiad. Amlygai y brenin ei hwyrfrydigrwydd i wneyd hyny, ond rhoddodd i fewn yn y diwedd. Mewn canlyniad cawd etholiad arall, ac yn ffodus, ychwanegwyd at nerth y diwygwyr nes gwneyd eu prif fesur yn ddyogel. Yr oedd y mwyafrif o blaid yr ail ddarlleniad yn 136, ac o blaid y trydydd ddarlleniad yn 109. Yr oedd y wlad yn gwbl hyspys o ddygasedd yr Arglwyddi tuag at y mesur, ac yr oedd y cwestiwn,—beth wnaent ag ef, yn ngenau pawb. Rhoddwyd atebiad buan. Yr oedd yr Arglwyddi wedi hen wneyd eu meddyliau i fyny. Dywedodd Arglwydd Eldon mewn dull diamwys y gwnai efe ei ddyledswydd, ac yr oedd ei oedran a thymhor hirfaith ei swyddogaeth, yn rhoi ystyr a dylanwad i'w ddatganiad. Cododd Iarll Grey i fyny i appelio yn benaf at yr esgobion. Dywedai:—"I especially beg the spiritual portion of your lordships to pause and reflect. The prelates of the empire have not a more firm friend than I. But if this bill should be thrown out by a narrow majority, and the scale should be turned by their votes, what would be their situation? Let them set their house in order." Ar y 9fed o

Hydref cafodd y mesur ei daflu allan gyda mwyafrif o 41. Cynhyrfwyd y wlad drwyddi. Torodd terfysgoedd peryglus allan, yn enwedig yn Bristol, Nottingham, a Derby; llosgwyd lluaws o adeiladau costus, a chollwyd llawer o fywydau. Gorfuwyd galw y milwyr allan yn Bristol; lladdwyd a chlwyfwyd oddeutu cant o ddynion, a chrogwyd pedwar o'r prif derfysgwyr; ac oni fuasai am dawedogrwydd doeth y weinyddiaeth, a hyder y werin na fuasai yn syflyd oddiwrth ei mesur, nid oes amheuaeth na fuasai yr orsedd ei hun wedi gorfod talu am wrthwynebiad annoeth y pendefigion gwrth-ddiwygiadol. GWERINWR.

(I'w barhau.)

AWELON PEN Y MYNYDD.

AWELON pen y mynydd ban
  Sy'n dod i'r lan i'm swyno,
Lle pora'r defaid mad, tra'r wyn
  O dwyn i dwyn yn prangcio;
O mae'ch cwmni yn fy lloni,
A melus mwyn yw'ch difyr gerddi;
Tan eich gwenau gwrida'm gruddiau,
Ac iechyd fydd yn taenu ei flodau;
'Rwyf fel pe mewn rhyw lesmair mwyn –
  Yn mysg y brwyn a'r llysiau.

Awelon pen y mynydd, dewch,
  A chroesaw gewch yn gysson;
Rhwng bryniau gwyllt a chreigiau certh,
  Sydd o fawr werth i'r Brython;
Mae pob gwelltyn fel rhyw delyn,
Yn arllwys cerdd i glust y dyffryn;
Clywir adar man yn trydar,
Ac yn telori'n hwyr a chynar;
Awelon mwynion, dewch yn nes—
  'Rwy'n teimlo'ch lles digymar.

Awelon pen y mynydd derch,
  Mawr yw fy serch am danoch;
Yn nghol y Gwanwyn tesog, clir,
  Dan wenu'n wir y daethoch;
O aroswch, beunydd hidlwch
Yn fwyn gawodydd i mi'ch heddwch;
Byddwch dirion i mi'r awrhon;
Anadlwch etto trwy'r haf yn hylon;
Paham y ciliwch draw yn mhell?
  Cewch genyf gell fy nghalon.

Cefn Coed. CASWALLON.

FAFASOR POWELL.

(Parhad o rhifyn Awst, 1895.)

Wedi iddo gael ei gadw am beth amser yn ngharchar Caerdydd, a chael triniaeth lled arw yno ar y cyfan, symmudwyd ef i'r Bontfaen, er mwyn bod yn fwy cyfleus i gyfarfod â'r ynadon; ac ar Hydref 17eg, 1668, dygwyd ef i'r llys o flaen Syr John Aubrey. Dr. W. Beynon, swyddog o Gwrt-yr-Esgob, yr hwn a bennodwyd i'w holi. Rhoddwyd ef dan arholiad maith yn nghylch ei urddiad a'i bennodiad i bregethu yr Efengyl, &c.; a bu cryn ddadl ar y fainc, pa un a ollyngid ef yn rhydd ai peidio. O'r diwedd penderfynwyd ei fwrw eilwaith i garchar Caerdydd, er gwneyd ymholiad pellach i'w achos; a hyny a wnaed; a bu yno hyd yr wythfed o Dachwedd, pan y cyfarfyddodd yr unrhyw foneddigion drachefn i drafod ei achos yn ngwestdy yr "Angel," Caerdydd, ac yn deisyf arno gymmeryd y "llwon o ufudd-dod a goruchafiaeth," &c., yr hyn a wrthododd yn bendant, a chadwyd ef drachefn "yn sicr a diesgeulus" yn y carchar.

Yn nghylch tri mis ar ol hyn darfu i gyfaill iddo yn Llundain gael ysgrifen symmudiad i'w drosi i Lys y Dadleuad Cyffredin, eithr Sirydd Morganwg a wrthododd ei ollwng ymaith. Yna danfonwyd gwys arall i'w geisio—dyn yn nghyda bygythiad o ddirwy o gan' punt os na ddanfonid ef. Yn ngwyneb hyn gollyngwyd ef ymaith. Eithr ni chafodd gymmaint a gair o wybodaeth yn mlaenllaw am ei symmudiad sydyn ac annysgwyliadwy; ac am wyth o'r gloch y nos, daeth yr Is-sirydd ato i'w erchi fod yn barod yn mhen hanner awr, ac felly bu. Cymmerwyd ef gan osgordd o filwyr wyth milldir o ffordd y noson hono, sef 16 o'r trydydd mis (Mehefin?), 1669, ac a'i dygasant o flaen y frawdle yn Westminster ar yr 22ain o'r un mis, a phrofwyd yno fod ei garchariad yn annghyfreithlon, a chafodd genad i agor ei achos ei hun; ac er y barnodd y llys fod y cyhuddiadau i'w erbyn yn ffugiol a disail, er hyn oll cafodd ei fwrw etto i garchar, lle'r arosodd o'r 24ain o'r 3ydd mis, 1669, hyd nes y cafodd ei ryddhau gan angeu ar yr 27ain o'r 8fed mis, 1670.

Yn ystod y carchariad yma yr oedd iddo lawer iawn o ryddid i fyned a dyfod, a phregethu, a chyfeillachu â'i gymdeithion yn ddirwystr, eithr yr oedd ei iechyd yn gwaethygu bob dydd, ac o'r diwedd efe a orfuwyd i gadw ei wely; ac ar ol mis o gystudd trwm, efe a fu farw, gan roddi ffarwel i bob gormes a thrais, ac a orphenodd ei yrfa yn orfoleddus, ei weinidogaeth effeithiol a'i ddyoddefiadau echrydus, am bedwar o'r gloch yn y prydnawn, "ar y seithfed dydd ar ugain o'r wythfed mis, a elwir Hydref, 1670, yn nhy Garoone—y carchardy yr amser hyny yn Lambeth," yn yr 11eg flwyddyn o'i garchariad, y 33ain o'i weinidogaeth, a'r 53ain o'i oedran, ac a gladdwyd yn mynwent Bunhill Field. Heddwch i'w lwch. Dyna fraslinelliad o fywyd a marwolaeth un o'r dynion

mwyaf a fagwyd yn Nghymru—mawr yn mhob ystyr, mawr o gorff a meddwl. Dywedir ei fod o gorff hardd, lluniaidd, a chadarn, ac yn meddu ar gof rhyfeddol. Yr oedd megys mynegai o'r holl Feibl, yr oedd yr oll ar ei gof. "Gallasai gofio dwy neu dair pregeth yn nghyd, gan ei frodyr yn y weinidogaeth," gallasai eu hadrodd air yn air. Nid oedd yn prisio nac yn ofni cilwg neb, na ffafr gwyr mawr, ond a'u rhybuddiai ac a'u ceryddai yn ffyddlon a didderbynwyneb.

Yr oedd yn ddyn i'w genedl, a bu yn offerynol i'w deffroi o'i chysgadrwydd gwleidyddol, ac i waeddi am ryddid barn a chydwybod i addoli eu Crewr yn ol eu hewyllys.

Er nad oedd yn ddyn plaid, etto i gyd gadawodd ar ei ol gyffes o'i ffydd, yr hyn a brawf ei fod yn rhy annybynol ei feddwl i ymostwng i hen gredoau a gosodiadau dynol.

Yr oedd ei barch i wirionedd ac unplygrwydd cymmeriad yn ddiarebol, fel y beiddiodd geryddu Cromwell am ymestyn at yr orsedd; ac er iddo gael ei garcharu am hyny, etto i gyd ni ddystawodd, ac fe ddichon oni buasai iddo ef yn ei bregeth ofnadwy yn Blackfriars y buasai Cromwell wedi derbyn y goron. Yr oedd am i'w broffes, ei farn, a'i ymarweddiad, i fod yn gysson â'u gilydd; ac am ei fod mor ofnadwy o ddidderbynwyneb y creodd gynnifer o elynion iddo ei hun.

Beiodd ei elynion ef ei fod yn gribddeilgar, ac mai hunan elw iddo fu ei appwyntiad fel dirprwywr yr Eglwys yn Nghymru, eithr dystawodd ei atebiad o garchar Fleet Street ei holl elynion, fel na feiddient yngan rhagor o'i blegyd. Yr oedd ei elusengarwch a'i haelioni yn annghymharol, a gwnai ddaioni i ereill yn aml ar draul colledu ei hun. Cyssegrai y bummed ran o'i holl dderbyniadau at gynnorthwyo y tlawd. Y tlawd a'r angenus oedd ei ddewisedigion. Gwahoddai hwynt i'w dy, gwisgai y noeth, porthai y newynog, a thorai o fara y bywyd i bob dyn. Yr oedd mor rhyddgalon, fel yr arferai ddweyd fod ganddo le mewn gwelyau i ddeuddeg yn ei dy, cant yn ei ysgubor, a mil yn ei galon.

Hefyd yr oedd yn llenor Cymreig a Seisnig gwych. Y mae yn syndod sut y cafodd amser i gyfansoddi ac yntau ar ei daith byth a hefyd yn pregethu ac yn dysgu ei gydfforddolion. Gadawodd ar ei ol naw o lyfrau, yn Seisnig a Chymraeg. Ymosodwyd arno yn ddirebus gan Dr. Griffith, esgob Bangor, a chan ei frawd, yr hwn oedd yn ficer Glazbury; eithr efe a brofodd ei hun yn ormod o gawr iddynt i ymgodymu ag ef. Y mae y ffaith fod y fath ddygasedd a chenfigen yn cael eu dangos tuag ato yn profi ei fod yn ddyn mawr mewn gwirionedd, ac nad oedd y byd yn deilwng o hono. Yr oedd y byd a'r diafol sydd ynddo wedi ymgyngreirio i'w erbyn, ac wedi ymddiofrydu i'w ladd, yr hyn a gyflawnasant er cywilydd bythol i'w coffadwriaeth.

Hefyd yr oedd yn fardd, ac y mae hanes ei fywyd yn argraffedig yn ei emynau, a bydd rhai o honynt yn cael eu canu tra fydd Cymraeg yn cael ei pharablu. Efe roddodd fodolaeth i'r emyn gorfoleddus hwnw :—

"Hosana haleliwia
I'r Oen fu ar Galfaria, &c.

"Mae'n achub hyd yr eitha'
Y pechaduriaid mwya'.

"Eheded Iachawdwriaeth
Drwy gyrau'r holl gre'digaeth,' &c.

Ond o bob emyn a gyfansoddwyd yn y Gymraeg, nid oes yr un yn fwy adnabyddus ac ar dafod leferydd y genedl yn fwy nâ—

"Beth sydd i mi yn y byd,
Gorthrymderau mawr o hyd;
Gelyn ar ol gelyn sydd
Yn fy nghlwyfo nos a dydd;
Feddyg archolledig rai,
Dere'n fuan i'm hiachau.

"O na allwn tra fawn byw,
Rodio bellach gyda Duw,
Treulio f'oriau iddo'n llwyr
O foreuddydd hyd yr hwyr;
Canu am ei werthfawr waed,
Nes meddiannu'r nefol wlad."

A phan ystyriom dan ba fath amgylchiadau y canwyd hwy, byddai yn ddigon i ddodi pob cynnulleidfa ar dân wrth eu canu. Y mae swn rhygniadau rhydlyd cloion y carchardai yn mhob llinell o honynt, ac nis gallaf lai nâ gwrido o herwydd fod cynnullwyr emynau y *Caniedydd Cynnulleidfaol* wedi eu tadogi i Morgan Rhys, yr hyn sydd hollol gyfeiliornus, a dweyd y lleiaf.

Felly, terfynwn ein llith ar y gwladgarwr trwyadl, y Cristion pur, a dyn i Dduw mewn gwirionedd.

GWERNYFED.

RHES O DDIAREBION LLEOL.

GAN GWERNYFED.

(*Parhad.*)

280 'YN mhob gallt mae cringoed.' 'Nid yw coed yr allt i gyd yn syth;' ac 'Mae dafad ddu yn mhob praidd.' 'Pawb a dyn at
285 eu tebyg,' a 'Mab a dwng ei dad,' ac 'Ni fydd y tad farw tra'r mab yn fyw;" ac 'Y mae ol y fam ar y ferch,' am fod 'Blas y cyw ar y cawl,' gwnewch a fynoch iddo. 'Daw'r ferch i fagu'r
290 fam' cyn hir. ''Thynir 'mo ddyn oddiar ei dylwyth;' er hyny, ''All neb gario'i dylwyth ar ei gefn.' 'Anhawdd tynu cnace o hen geffyl.' 'Rhy anhawdd colli hen arfer.' Gwyddom mai
295 'Naturiol i asyn frefu.' A'r 'Asyn a frefa fwya' a fyt leia'.'

Etto i gyd, ''Does gan asyn ond cic i'w gymmwynaswr goreu.' Er hyny, 'Teg i asyn ei fwyd,' a 'Thebyg i ddyn fydd ei lwdn.' Dywedir fod ambell un 'Mor anwadal â phlentyn.' Purion; er hyny, rhaid i ni gofio mai 'Plant yw plant ar y goreu,' ac mai 'Plant a hen bobl dd'wedant y gwir;' etto, ''Wiw dysgwyl i blentyn fod yn ddyn.' Er hyny, 'Y plentyn yw tad y dyn.'

''Does gan neb gwyn i henddyn.' 'Wn I ddim paham, os nad am 'Henach, henach, ffolach, ffolach.' 'Mae dod i bobpeth ond i henddyn,' sydd ag 'Un troed yn y bedd a'r llall ar y tir.' 'Penwyni yw anhap henaint.' ''Ddaw henaint ddim ei hunan:' odid iawn na fydd gydag ef luaws o gyfeillion tra annghymmodlawn. Ond yn wir, y mae ambell henddyn yr un fath â phe yn feddiannol ar 'Naw bywyd cath,' nes o'r braidd yru pobl i waeddu 'Gwarged angeu' ar ei ol. Etto, 'Gwell ergyd henddyn nâ gwers ynfytyn,' a 'Gorfod pob gorfod, gorfod marw.'

'Dyeithr pob llwybr nes ei gerdded,' a 'Hir pob ffordd nes ei hadwaen;' felly, 'Hawdd pob crefft wedi ei dysgu,' eithr 'Ffol pob call nes dysgo,' ac 'Annoeth pawb nes gwypont,' ond 'Ffola' ffol na fyn wybod.' ('Pob ffol sy'n gallach yn ei olwg ei hun nâ dengwr yn trin rheswm.') 'Ni fu gwall arf mewn llaw ddecha erioed etto,' ac 'Ni phall min mewn llaw gywrain,' ond 'Dall pob annghelfydd,' ac 'Afrwydd pob gorchwyl ar y cyntaf,' ond 'Rhwydd pob cyfarwydd,' ac 'Ysgafn pob cynnefin.'

Yn fynych iawn 'Y dystawa'i dafod yw'r llyma'i ddant,' a 'Hwch fud a fwyty'r soeg i gyd,' a phriodol iawn i ni gofio 'Nad yw neidr byth yn cyfarth.' 'Pwyll a gerdd yn mhell,' ac yn fynych, y mae 'Pwyll yn well nag aur' i'r sawl a'i meddo."

'Anhawdd celu cariad' sydd ffaith adnabyddus yn y byd carwriaethol, ond—ie, *ond* ''All neb fyw ar garu a chusanu:' mae yn rhaid wrth rywbeth mwy sylweddol nâ hyny. 'Peth hawdd yw priodi,' ond y mae'n 'Anhawdd byw'n y byd:' mae'r *demand* yn fwy nâ'r *supply* lawer pryd. Etto i gyd, 'Ei dro i bobpeth, a phobpeth yn ei dro.' 'Dianaf hagr i gariad.' ''Does fyth fai lle bo cariad,' a beth ddywedech chwi am rywbeth sydd 'Mor boeth â chariad naw wythnos oed?' Debygwn I mai 'Hwnw sy'n ddall i bob anaf.' 'Lle bo mab ifanc yn caru'n bur,' ei arwyddair yw, 'Rhaid crogi cost lle bo cariad,' serch cael gwerth dimai o gawl yn rhagor ar ddydd Ffair Tregaron, cofiwch.

Dylem gofio 'Ewyllys a bair allu,' ac 'Heb ewyllys heb allu.' Ond tebyg iawn y derfydd 'Fel ffagl mewn gwellt" os heb ewyllys. Twt baw! ''Wnawd y byd ddim ar unwaith.' Beth yw'ch cintach ch'i? 'Ni fu colled i neb na fu ennill i rywun.' Am hyny, byddwch dawel: 'Yr un pryd aiff hi yn nos heno â neithiwr,' ac 'Fe ddaw'r boreu gyda'r wawr.'

''Rwy'n drech ac yn fwy deche—nag undyn
A berthyn i unrhyw barthau,'

yn fy ngolwg fy hun. 'Mae pob llo yn nabod ei fam,' ac y 'Mae

pob aderyn yn hoff o'i gerdd ei hunan,' a 'Phawb yn adwaen swn eu cloch eu hunain,' ac 'Mae pob ceiliog yn feistr ar ei domen ei hunan,' a 'Theg yw i bawb ganu ei delyn fach ei hun,'
355 o herwydd 'Y *fi* pïa *fi*.' 'Nesa hwnt, 'nei di' ('*elbow room*'). 'Y *fi* wnaeth y byd.'

'Y V yw top y tepot, y V yw top y to,
Y V yw'r gwr goreu oddiyma i Nantyglo.'

Purion, ond cymmer ofal o'r 'Plotyn du sydd ar dy gefn di.'
360 'Y mae i bob celwydd ei gymhar,' ac 'Y mae un celwydd yn gwaeddi am un arall;' ac fe ddywed ambell un weithiau 'Gelwydd fel ci yn trotian,' a hwnw, ond odid, yn 'Gelwydd glân, goleu.' Er hyny, 'Hawddach dal y celwyddog nâ'r cloff,' er
365 fod gan 'Gelwydd ddau bâr o draed' lawer pryd. 'Hawdd iawn credu celwydd.' 'Pob gwir gerdd yn araf.' 'Dyna wir i chwi,' ebai un. 'Ie,' ebai'r llall, 'Gwir yw gwir, ac fe ddal
570 ddw'r.' Hefyd, 'Dal at y gwir ta'r wybr yn cwympo,' beth bynag fo, waeth 'Trech gwir nag arf,' ac yn wastad 'D'wed y gwir nes cocho'r cythraul.' 'Fe fyn y gwir ei le,' ac

'Ar y gwir 'does ragoriaeth:
O'm lleddir am wir ba waeth."

375 Gall ambell un fod 'Mor dwp â mochyn;' er hyny, gall 'Fod â rhyw ddrwg yn ei lawes' yr un pryd, a gall fod 'Mor ddystaw â'r bedd' yn ei weithrediadau, ac 'Mor fwyn â gweniaeth putain,' yn gymmaint felly ag y tybiech chwi na 'Thoddai 'mo'r ymenyn
380 ar ei dafod,' a thrwy hyny fod 'Mor ddibarch â blaidd' gan ei gymmydogion, o herwydd 'Ni ddaw'r baw oddiwrtho os gall help,' ac y bydd pawb yn barod i ddweyd fod 'Ei le yn well nâ'i gwmpni,' yn nghyd à 'Gwared da ar ei ol;' ac os 'Melus
385 ag ef,' 'Melusach o lawer bod hebddo,' oblegyd rhaid yn fynych 'Iro taeog â mêl'=â gwddi=â bloneg. 'Yr uchela'i drem yw'r isela'i dric,' a'r 'Uchela'i dras yw'r isela'i dro,' a'r 'Llawna'i boc yw'r gwaca'i ben,' fel mae gwaethaf y modd.
390 'Gwaethaf arfer, arfer ddrwg,' a 'Goreu moes, gwyleidd-dra;' ac yn wastad, 'Goreu gair, gair da,' ac o bob gair a gweithred, 'Goreu arfer, daioni.'

'Goreu llygad i gadarn,
Trugaredd buredd a barn,
Gwell heb lygad bwriad bâr
Efo naws drwg ystrywgar.'

395

'Gwae gydio gae gyda gwall
O warth erwin wrth arall.'

'Y mesur y mesuri
Fy' siwr o d'ail fesur di.'

'Nid y mwya' yn ei gywaeth
Yw'r mwya'i doraeth gerbron Duw,
Ond y mwyaf wnaeth—drugaredd gu i gaeth
Sy'n benaeth yno'n byw.'

'Hai gel gerddo hyd nes ffailo,' heb rith o dosturi tuag ato; er hyny, 'Cel da yw cel benthyg,' ond ei fod yn bwyta gormod o fwyd. A ''Does byth flino ar gel benthyg,' ac yn wastad 'Y mae ych benthyg yn bwyta'n llwyr,' am y gofelir peidio dodi gormod o'i flaen.

Y mae yn debyg genyf fi ''Dyw cig llwdn lladrad byth yn drewi,' mwy 'Nad yw afal o berllan arall byth yn sur.' 'Mae arogl afal sur yn well nâ'i flas' yn siwr; ond 'Melusach afal o'i ddwyn,' a 'Melus gwin o gafn arall.'

Wel, gyfeillion, 'Digon yw digon,' a hyny am ddim, ac 'Mae cenol i bob peth,' ac 'Mae i bob peth ei ddiwedd.' 'Felly finau,' mi ro'f 'Amen ar fy mhenyd.'

HEN DY CWRDD CEFN COED.

Ar y Sul a'r Llun, sef y 4ydd a'r 5ed o Awst, agorwyd y capel hwn wedi ei adnewyddu am yr ail dro, ar ol ei adeilad cyntaf yn 1747. Fel y gwyr ein darllenwyr, cangen yw y gynnulleidfa hon o'r hen gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yn Blaencanaid, ac wedi hyny, am yspaid hir, yn Nghwmyglo. Gan fod hanes Cwmyglo, ac hanes Anghydffurfiaeth yn ardaloedd Merthyr, wedi ymddangos ar dudalenau yr Ymofynydd ragor nag unwaith, ni wnawn ond crybwyll i'r gangen a adeiladodd yr Hen Dy Cwrdd ar y Cefn dori allan o'r fam eglwys yn 1747, o herwydd eu bod yn gwahaniaethu mewn barn oddiwrth y lleill. Blaenoriaid y blaid hon oeddynt y Parch. Richard Rees, o'r Gwenllwyn, Dowlais, a fu yn gweinidogaethu yn Nghwmyglo, ac wedi hyny, ar y Cefn, hyd ei farwolaeth, yn 1749, a Sion Llewelyn, o Coedycymmer. Arminiaid selog oeddynt, ac mae Sion Llewelyn, drosodd a throsodd yn ei farddoniaeth, yn lled lawdrwm ar y Galfiniaeth a gredid gan ei gyfeillion—

"Cospi'r plant am feiau'r tad; Och! c'wilydd gwlad yw'ch testyn,
Mi gredaf yn Ezeciel sant o flaen deg cant o Galfin."
"Mae crefydd rhai mewn geiriau - proffesant Crist yn frawd;
Hwy'i gwadant ar weithredoedd—mae hono'n grefydd dlawd;
Mae'n tarddu maes o'r tafod, a thyna i gyd ei grym;
Daw'r grefydd hon o'r diwedd i'r dom, heb dalu dim."

Dyry adfeilion Cwmyglo enghraifft darawiadol iawn i ni o'r modd yr oedd ein tadau yn cael eu gyru gan erlidigaeth i gymoedd anghysbell i godi eu tai cyrddau. Rhydd Dr. Charles Wilkins, Merthyr, y desgrifiad hwn o'r hen gapel:—

"Yr oedd yr hen gapel yn cael ei amgylchyni gan dwyni a llechweddau, yn cael ei guddio gymmaint gan y coed, fel nad oedd gan yr ymdeithydd y ffordd hono yr un drychfeddwl fod yno adeilad i gael, hyd nes y byddai o fewn ychydig latheni iddo. Mesurai y

capel 36 o droedfeddi o hyd a 18 o led, ac yr oedd wedi ei fwriadu ar y cyntaf fel man y gallasai y bobl ddianc iddo o derfysg erlidigaeth eu gelynion, i gael chwareu teg i addoli mewn tawelwch. Nid oedd un ffenestr iddo, dim ond yr agenau i awyr i dramwy trwyddynt, a welir mor gyffredin mewn ysguboriau yn y wlad, a chyn y gallesid cario y gwasanaeth yn mlaen yn briodol, yr oedd yn rhaid i'r addolwyr wrth oleu canwyllau brwyn, neu rhyw ddyfais gyffelyb. Ac er dallu llygaid yr yspiwyr ag oeddynt bob amser ar dwr o wyliadwriaeth am rai yn beiddio tori deddfau'r wlad yn eu hawydd i addoli Duw, defnyddid y capel fel ysgubor, a gellir hyd yn nod yn awr olrain ffyrdd gart tu cefn i'r adeilad, ar hyd yr hon y byddai'r ffarmwr yn cario ei wair a'i lafur. Wrth y talcen gogleddol yr oedd ystabl, yr hon a ystyrid yn un o anhebgorion capel yn yr hen amser, oblegyd ymdyrai y bobl tuag yma o'r Faenor, Aberdar, Gelligaer, ac hyd y nod Caerffili; mae'r ystabl hon yn 20 troedfedd o hyd a 15 o led, ac hyd y muriau y tu allan—y capel a'r ystabl—yn 69 troedfedd."

Pan adeiladwyd yr Hen Dy Cwrdd gyntaf, naturiol yw meddwl nad oedd sefyllfa gymdeithasol y lle yn rhyw uchel iawn. Yr oedd Cwmyglo, cynniweirfa y tadau am lawer blwyddyn hir, yn dechreu ymwahanu. Daeth y gangen gyntaf o honi, fel yr ydym wedi gweled, yn y flwyddyn 1747; aeth un arall allan yn 1749, ac ymsefydlodd yn Ynysgau, Merthyr, tra y dylynodd y trydydd yn 1751, gan wneyd ei chartref newydd ar Heolyfelin, Aberdar. Am dymhor hirfaith, nid oedd ar y Cefn un gyrchfan grefyddol arall, i arfer ei dylanwad bendithiol er rhoddi attalfa ar ddylif yr arferion a'r difyr-gampau diraddiol a ffynent yn yr ardal ar y pryd. Yn wir, prin y gellir dweyd am gynnulleidfa yr Hen Dy Cwrdd ei hunan ei bod yn gwneyd yr hyn a ddysgwylasid oddiwrth eglwys o bobl wedi ymgyflwyno i achos Duw, tuag at foesoli a dyrchafu y rhai a breswylient yn y pentref. Nid oes angen myned yn mhell i chwilio am yr achos. Boneddwyr a ffermwyr cyfrifol yn byw yn yr ardaloedd cylchynol ydoedd aelodau yr Hen Dy Cwrdd, gan mwyaf, yn dyfod yn eu cerbydau, ac ar eu ceffylau, i'r lle unwaith mewn wythnos heb ganddynt nemawr i ddim i ymwneyd â bywyd cyffredin y trigolion yn ystod y diwrnodau ereill. Yn ol rhestr a ysgrifenwyd gan un Thomas Evans, yn rhoddi enwau y sawl a gymunent yma ar y 24ain o Fehefin, 1827, ni a gawn fod y rhan amlaf o'r aelodau heb fod yn drigianol yn y lle. Yn mhlith y cyfryw gallwn enwi—Matthew Wayne a'i briod, o Aberdar; y Parchedigion Jenkin Rees, William Rees, a Dr. David Rees, o Ferthyr; Mrs. Morgan, o'r Grawen; Harry John Harry (*a very obliging member*), Sion Harri a'i wraig, o'r Faenor; John William, o Benrhiw'r glais; Richard Jenkins, ffermwr, Merthyr; Mary Saunders, Cyfarthfa; Lewis Jones, Berthlwyd, a'i wraig; Evan Thomas, o Aberdar; Gwenllian John, Llwynmolgoch; Thomas Evans, *schoolmaster*, a Mari Aberteifi.

Y rhai hyn oedd colofnau yr achos yn y flwyddyn 1827. Ac nid syn genym glywed fod preswylwyr y lle wedi ymwerthu i bob math

o redegfeydd, ymladdfeydd, &c., yr hyn a roddodd rhywfath o anrhydedd annymunol ar y Cefn, fel y man bach gwaethaf yn yr holl gyffiniau. Cof genym glywed yr hen bobl yn adrodd laweroedd o weithiau am y modd y byddai, ar brydnawnau Sul, rhyw ddau enwog yn y *noble art of self defence*, yn ymgyfarfod, yn nghanol llu o edmygwyr, ar y Twyn, yn ceisio penderfynu eu cwerylon, os cwerylon hefyd, tra yr oedd addolwyr yn yr adeilad gerllaw yn gwneyd eu goreu i addoli eu Duw, yn nghanol ysgrechfeydd yr ymladdwyr oddiallan.

Arferiad arall ag oedd yn lled flodeuog yn yr ardal cyn i oes y capelau ddyfod i mewn a deffroi cydwybod cymdeithas i'r fath raddau yn ei erbyn, nes o'r diwedd osod terfyn arni, oedd ymladd-feydd teirw (*bull baiting*). Ar adegau pennodedig ymdyrai pobl yn finteioedd mawrion i rywfan dewisol, ar y gwastad-tir gerllaw hen gastell Morlais, neu mewn rhyw gilfach arall, lle y cigyddid cwn a theirw er gwneyd dydd o wyl i'r bobl. Yr engraifft olaf o'r arferiad hon a gymmerodd le ychydig dros bedwar ugain mlynedd yn ol, mewn cae, ger y fan y saif y Temperance Hall arno yn bresennol, ond cyn bod yr holl rialtwch drosodd, daeth y cwnstebli ar eu traws, a gorfu ar y cwmni gymmeryd y cwn a'r tarw gyda nhw i gapel Nantddu, lle y cawsant lonyddwch i gwblhau eu chwareu creulon.

Er cymmaint yr achwyna llawer un o honom am y brychau a welir ar ein cymdeithas ar y Cefn yn bresenol, ac am nad yw'r lle yr hyn y carem ei fod, etto mae cynnydd amlwg wedi ei wneyd, a thrwy ledaeniad addysg well, a thrwy gydweithiad ein heglwysi i ymladd yn erbyn y drygau ydynt yn flodeuog yn ein plith yn awr, ni a hyderwn y daw yr anial i flodeuo fel y rhosyn, ac y bydd i Dduw fywhau ei waith yn nghanol y blynyddoedd.

Wedi marwolaeth y Parch. R. Rees, daeth y Parch. Phillip Charles, yr hwn a fu yn weinidog yma am 41 mlynedd, o 1749 hyd ei farwolaeth, Mai 19, 1790. Ar ei ol ef, y daeth y Parch. Thomas Davies, yr hwn a wasanaethodd yr eglwys o 1790 hyd 1832, blwyddyn *Reform Bill* Lord John Russell—yspaid o 42 mlynedd. Dylynwyd ef gan y Parch. Daniel Davies, yr hwn, pan yn 72 mlwydd oed, a ddaeth yn weinidog yn 1832, "hyd nes," fel y dywed ef ei hun (Gweler Ymof. Meh. 1895) "y buasai'r gynnulleidfa yn dewis gweinidog." Bu yma hyd 1837, pryd y dewiswyd y Parch. Owen Evans. Ceir hanes bywyd a gwaith Mr. Evans yn Ymof. Ion. 1895. Ar ol marwolaeth Mr. Evans yn mis Ionawr 1865, bu yr eglwys heb weinidogaeth sefydlog hyd rywbryd yn y flwyddyn 1867, pryd y pennodwyd y Parch. Isaac T. Williams, yn weinidog. Gwanaidd o gorff oedd Mr. Williams, ac o herwydd ei wendid cynnyddol bu raid iddo ymneillduo o'r weinidogaeth yn 1872 neu 1873, nid ydym yn sicr, a myned i ardal Aberdulais, lle y trigai perthynasau iddo; ac yno y bu, mewn nychdod mawr, yn aros awr ei ymddattodiad Ni fu raid iddo aros yn hir.

O adeg ymddiswyddiad Mr. Williams hyd Awst, 1877, bu yr eglwys heb fugail sefydlog i edrych ar ol ei helynt. Ar y Sul

cyntaf yn mis Awst, 1877, dechreuodd y gweinidog presennol ar waith ei weinidogaeth, ac ar y Sul cyntaf yn mis Awst, 1895, yn mhen 18 mlynedd, agorid y capel prydferth presennol. Am y capel ei hun, beiddiaf ddweyd ei fod yn un o'r adeiladau tlysaf, os nid y tlysaf a fedd yr Undodiaid yn Nghymru, a diolchwn yn gynhes i'r cyfeillion lawer a fuont yn hynod garedig yn ein helpu i'w godi.

Y gweinidogion a fuont yn gwasanaethu ddyddiau yr agoriad oeddynt y Parchn. W. J. Phillips, Nottais; W. James, B.A., Y.H., Llandyssul; W. Grifiths, B.D., Ph.D., Pontypridd; R. J. Jones, M.A., Aberdar; T. Salathiel (B), Cefn, a gweinidog y capel. Yr oedd y pregethau yn odidog a'r cynnulliadau yn fwy na gorlenwi y capel. Yn wir, fe drodd yr oll allan yn well na'n dysgwyliadau goreu. Diolchwn i'r cyfeillion o Ferthyr, Dowlais, Aberdar, Cwmbach, a lleoedd ereill, am eu presennoldeb, ac am yr help a roisant i'r canu, yr hwn oedd yn ardderchog. UN OEDD YNO.

UNDOD YNTE TRINDOD.

Y MAE'R athrawiaeth fawr o Undod Duw wedi cael ymdrech galed o'r oesoedd boreuaf i gadw yn glir oddiwrth y llygriadau oeddynt yn ei bygwth ar bob tu. Myntumiai'r proffwydi Iuddewig yr athrawiaeth o Undod diranedig Duw, a hyny yn wresog iawn. Ebe Esaiah xlv. 5, 'Myfi ydwyf Jehofa, ac nid arall; nid oes Duw ond myfi." Ac ebe Zechariah xiv. 9, "A Jehofah a fydd yn frenin ar yr holl ddaear; y dydd hwnw y bydd un Jehofah a'i enw yn un." Yn Llyfr Deuteronomium vi. 4 darllenwn, "Clyw, O Israel, Jehofah ein Duw ni sydd un." Dysgwyd yr un athrawiaeth gan yr Iesu (Marc xii. 29), a thrachefn gan Paul: "I ni nid oes ond un Duw, y Tad" (1 Cor. viii. 6).

Ond yn y byd y tu allan i afael y Beibl yr oedd eilunaddoliaeth yn blaguro. Yn neillduol yn yr Aifft fe gawn yn gerfiedig ar y cofgolofnau y cyfeiliornadau y mae yr Eglwys Gristnogol yn ddiweddarach wedi syrthio iddynt. Ceir enghreifftiau yn yr Amgueddfa Brydeinig—amryw ddarluniau o'r Drindod, neu o dri Duw, yn debyg i'r enghraifft hon.

Ar ddarn arian bathol *(coin)* o'r Aifft, a wnaed yn nheyrnasiad yr Ymherawdwr Trojan, cawn Drindod ar ffurf arall. Sphinx adeiniog ydyw, gyda thri phen, a choron ar bob pen, ac yn eistedd â phawen ar olwyn.

Mwy cywrain fyth yw darlun *porcelain* bychan, a fwriadwyd i'w wisgo fel swyn, yn cynnrychioli, yn ol ffasiwn yr Aifft, y Duw Mawr, Duw Fab, a Duw'r Yspryd. Corff y Duw Mawr Pthah yw y corff dynol salw hwn; yr edyn barcut a gynnrychiolant y plentyn Horus; tra mae'r pen hwrdd yn dynodi Kneph, neu yr Yspryd. Cawn felly yma Drindod mewn Undod, yn cynnwys tri pherson gwahanol.

Gellid parhau y darluniau bron yn ddiderfyn; ond wele un yn ychwanegol, a gwrddir yn fynych yn ein hamgueddfeydd, o'r hwn y mae Plutarch yn rhoddi desgrifiad, pan y dywed wrthym fod yr Aifftiaid yn addoli Osiris Isis, a Horus, dan ffurf triongl, Horus yn ffurfio yr ochr ferat.

Manion ac Hanesion.

CEFN COED. — Cynnaliodd aelodau Ysgol Sul yr eglwys hon eu *picnic* blynyddol mewn cae gerllaw hen eglwys y Faenor. Gan fod y tywydd yn braf, daeth lliaws mawr o bobl a phlant yn nghyd, a chafodd pawb eu boddloni.

Y LLYFR TONAU AC EMYNAU. Dymunir galw sylw ein heglwysi at y llyfr hwn. Y mae, ond odid, gan amryw yn ein heglwysi emynau y carent eu gweled yn argraffedig yn y llyfr newydd, neu y carent eu cyflwyno i sylw y pwyllgor. Dymunir ar i'r cyfryw ymohebu ag ysgrifenydd y pwyllgor emynau — Hathren Davies, Cefn Coed, Merthyr Tydfyl.

GELLIONEN.— Cynnaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê flynyddol dydd Sadwrn, Gorphenaf 15. Pobl hynod am dê ydi pobl Gellionen, a chaniatau mai Undodiaid ydynt. Bu gwyr a gwragedd, merched, a bechgyn ieuainc, perthynol i'r eglwys, yn dra gweithgar yn ystod y dydd. Heb son am dê, yr oedd yn ddigon o wledd i weled y blodau amryliw a addurnent y byrddau gan y boneddigesau fuont yn gwasanaethu. Chwareuodd y Trebanos *Brass Band* raglen o gerddoriaeth glasurol o dan arweiniad y cyfaill ieuanc, gobeithiol, William J. Williams, i foddlonrwydd mawr. Y mae parch (nid bychan) yn ddyledus i bawb yn gyffredinol, yn enwedig i'r brawd diwyd a ffyddlon, John Jones, Craiglynmeirch, Pontardawe, am ei ymdrech i wneyd ychydig elw oddiwrth ei *electric machine*. Mwynhaodd yn agos i wyth ugain eu hunain ar y danteithion melusion yn benigamp. Cafwyd gwledd hwylus, elw da; yr holl elw er lleihau dyled capel y Graig, Trebanos; ac yn goron ar y cwbl, cafwyd tywydd rhagorol o'r dechreu i'r diwedd.

Marwgofion.

Mehefin 26, yn Park Grove, Caerdydd, bu farw Margaret Mary, gwraig Mr. William Griffith, Royal Stores, Caerdydd, a merch i'r diweddar Thomas Haydn Evans, Cardiff Castle Hotel, Aberdar. Ganwyd hi Mehefin 29, 1857, a daearwyd yr hyn oedd farwol o honi yn y gladdfa gyffredinol ar ddydd pen ei 38 mlwydd, a gwasanaethwyd gan y Parch. J. Joseph George. Yr oedd gwasanaeth wedi ei gynnal yn flaenorol yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. George St. Clair, o eglwys yr hwn yr oedd yr ymadawedig yn aelod, a lle mae'r gweddill o'r teulu yn mynychu. Gadawodd weddw a naw o rai bach, yr ieuengaf yn ddim ond 14 mis, i alaru eu colled. Nawdd Duw a'i dangnef fyddo gyda hwy, a chyda'r fam alarus a'i gwr (Mr. a Mrs. David Rees, Wattstown), a'r galarwyr oll.

" O, dyna beth hyfryd
Fydd cael cwrdd heb 'madael mwy."

Mehefin 3, yn 42 mlwydd oed, William Williams, Gwrachyllwyne, ger Trebanos. Cigydd wrth ei alwedigaeth oedd gwrthddrych ein cofiant; mab i'r hen gigydd enwog William Williams, Pheasant Bush Inn, Trebanos. Dylynodd ei dad yn y gangen gigyddol am lawer o flynyddoedd gydag ymdrech mawr. Ni chafwyd y fraint o fwynhau ond ychydig o'i gwmni yn y gwasanaeth crefyddol, etto i gyd, mae'n bossibl ei fod wedi gwneyd llawer o ddaioni yn y cyfeiriad hwn heb fod yn wybyddus i ddynion, ond i Dduw yn wybyddus. Ac nid oes genym ond dymuno y goreu ar ran y meirw bob amser, ac o dan bob amgylchiad. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol wrth hen gapel anwyl Gellionen, pryd y daeth tyrfa luosog yn berthynasau a chyfeillion o bell ac agos at eu gilydd i dalu iddo y gymmwynas olaf yn y byd a'r bywyd hwn. Gwasanaethodd y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, ar yr achlysur yn ganmoladwy iawn.

Ffarwel iti, gydbererin,
Bro'r tawelwch ddaeth i'th ran;
Deuwn ninau i feddiannu
Yr un dynghed yn y man.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.